

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

---

**Cynhelir cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn trwy gyfrwng StarLeaf**

**Nos Fawrth, 6/10/2020 am 7.30pm o'r gloch**

**Cyhoedd:** *Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor: cysyllter â'r Clerc am fanylion StarLeaf. Darperir cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – gweler y Rheolau ar y wefan, neu cysyllter gyda'r Clerc*

### **Agenda:**

**2151 Croeso** a sylwadau'r Cadeirydd; derbyn ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant.

**2152 Cofnodion:** Ystyried cywirdeb cyfarfod dros y we ar Fedi 1af 2020

### **2153 Materion y Clerc:**

- i. Cefnogi cais Partneriaeth Penllyn am grant i Mantell Gwynedd i uwchraddio'r toiledau
- ii. Llwybr Cŵn – ymateb y Swyddog Hawliau Tramwy
- iii. Cais NP5/71/473A Cottage Garn

**2154 Adroddiad Cyngor Gwynedd** – Cynghorydd Alan Jones Evans

**2155 Sylfeini:** Trafodaeth ar y sefyllfa bresennol ym Maes y Pandy

**2156 Creu Cynllun Ardal**– adroddiad o'r cyfarfodydd diweddar(HA)

### **2157 Adroddiadau Cynghorwyr:**

- i. Eiddo: Karl Jones
- ii. Y fynwent newydd: Claddu llwch / Pris am baentio railings cefn y fynwent newydd
- iii. Eiddew yn tyfu dros yr yw (Cadeirydd)
- iv. Wyneb Llwybr y Cei - Cadeirydd
- v. Llwybr Tegid – trafodaeth ar gynnal y llwybr

**2158 Materion ariannol:** Y sefyllfa ariannol: Derbyniadau a thaliadau

### **2159 Ceisiadau Cynllunio:**

**NP5/71/LB43F Prys Mawr, Llanuwchllyn. LL23 7UF** Trosi adeiladau amaethyddol yn unedau gwyliau (4x16 gwely) yn ogystal ag uned ar gyfer popol ac anhawsterau, gan gynnwys elfennau ail doi gyda 13 o ffenestri to, 12 panel PV, estyniadau paneli rhychiog, mynedfa newydd pren to llechi, adeilad penty ar gyfer offer gwresogi, ystafelloedd cegin, bwyta, ymlacio, uned carthfosaeth Biotec 4 Klargester, mae parcio ar gyfer 10 cerbyd yn ogystal a holl waith allanol o amgylch y buarthau

(Yr un cais eto ar gyfer Adeilad Rhestredig)

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

---

**2160 Materion lleol:** Peryglon wrth i blant feicio yn y pentref (pryderon aelodau o'r cyhoedd)

**2161 Biniâu halen** – derbyn gwybodaeth am eu cynnwys

1. **Cynllwyd** Ffordd Y Gyrn
2. Tŷ Mawr
3. Nantybarcud Cynllwyd (angen i'r lori gritio fynd i'r fferm hon ac nid troi am y Plas - neb yn byw yn Y Plas)
4. **Penantlliw** Tyddynronnen
5. Tŷ Du
6. Tan y Castell
7. Rhiw Carmel x 2
8. Ceunant coch (ar ol pasio Buarth Meini - sat nav yn anfon ambiwlans ffordd hon!!!)
9. Brynlllech
10. **Peniel** Ffordd Cwm Onnen

**2162 Gohebiaeth** E-bostiwyd:

- i. **Cais am gefnogaeth gan Gyngor Tref Nefyn**
- ii. **Ymateb Simon Roberts i bryderon am or-lwytho'r Parc**
- iii. **Gohebiaeth o'r Gaiman**
- iv. Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr (a llythyr yn gwrthod ei dderbyn)
- v. Ap Covid 19
- vi. LIFE – recordiad o'r lansiad
- vii. Awel y Coleg – fflatiau yn rhydd
- viii. Arolwg effaith Covid

**2163 Partneriaeth Penllyn** – derbyn adroddiad y cynrychiolwyr

*Cadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/11/20 ar StarLeaf*